Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 06.07.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau ebost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# COVID-19: Cronfa Cadernid Economaidd (ERF): Cymorth Gorffennaf/Awst i fusnesau sydd â throsiant o £85k+

Gall busnesau sydd â throsiant cyn COVID o £85,000+, yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y cyfyngiadau sydd ar waith yn ystod Gorffennaf ac Awst 2021, wneud cais i'r Gronfa Cadernid Economaidd am gymorth ariannol i gwrdd â'u costau gweithredu (ac eithrio cyflogau staff). Mi fydd yn gronfa yn ailagor am 12:00pm 13 Gorffennaf 2021 tan 12:00pm 27 Gorffennaf 2021. Gallwch wirio eich cymhwysedd ar gyfer y cymorth pellach yma trwy fynd i:

https://fundchecker.businesswales.gov.wales/businesssupport/cy

- Bydd ceisiadau am gymorth gan fusnesau sydd â throsiant cyn COVID o dan £85,000 yn agor ar 26 Gorffennaf 2021 (mwy o wybodaeth i ddilyn).

# COVID-19: Gallwch wneud hawliadau CJRS mis Mehefin rŵan

Mae hawliadau o dan y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) bellach ar agor ar gyfer cyfnodau tâl ym mis Mehefin 2021. Rhaid cyflwyno'ch hawliad ar gyfer mis Mehefin 2021 erbyn 14 Gorffennaf 2021.

Dyma'r dyddiadau hawlio yn y dyfodol:

- ar gyfer diwrnodau ffyrlo ym mis Gorffennaf 2021, cyflwynwch eich hawliad erbyn 16 Awst 2021
- ar gyfer diwrnodau ffyrlo ym mis Awst 2021, cyflwynwch eich hawliad erbyn 14 Medi 2021
- ar gyfer diwrnodau ffyrlo ym mis Medi 2021, cyflwynwch eich hawliad erbyn 14 Hydref 2021

Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.gov.uk/guidance/claim-for-wages-through-the-coronavirus-job-retention-scheme.cy

# DYSGU: RCS – Lles ar gyfer gweithio: Rheoli Straen Gweithwyr ac Osgoi Gorweithio 20 Gorffennaf 2021

Bydd y sesiwn hon, i'w chynnal am 2:00pm 20 Gorffennaf 2021, yn archwilio'r achosion allweddol o straen yn y gweithle, sut all gweithleoedd ddatblygu asesiadau risg fel rhan o gynlluniau i leihau straen, sut mae RCS yn cefnogi gweithwyr sy'n profi straen a defnyddio asesiadau risg straen unigol a strategaethau i atal straen yn y dyfodol. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://rcs-wales.co.uk/cy/webinars-cy/

## BREXIT: Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE – mae'r dyddiad cau bellach wedi pasio

Dydd Mercher, 30 Mehefin 2021, oedd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE ar gyfer dinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir ac aelodau eu teulu, a oedd yn preswylio yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020. Bellach, o ddydd Iau 1 Gorffennaf 2021, mae'n ofynnol i ddinasyddion yr UE, yr AEE a'r Swistir ac aelodau eu teulu, gael statws mewnfudo dilys o'r DU i fod yn y DU, naill ai trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE, os oeddent yn preswylio yn y DU erbyn 31 Rhagfyr 2020 neu'n ymuno ag aelod o'r teulu, neu drwy fisa dilys. Mae mwy o wybodaeth am yr hyn y mae angen i gyflogwyr ei wneud ar gael ar:

https://bit.ly/2Uoyxhl

## RHWYDWEITHIO: Cynhadledd Blynyddol FSB Gogledd Cymru 16 Gorffennaf 2021

Ymunwch ar-lein ar gyfer Cynhadledd Blynyddol FSB Gogledd Cymru am 9:30am 16 Gorffennaf 2021, gyda siaradwyr gwadd a chyfle i rwydweithio â busnesau eraill. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3dKvhE0

Ymunwch â digwyddiad rhwydweithio rheolaidd FSB Gogledd Cymru i gwrdd â busnesau eraill o'r un anian, gwneud cysylltiadau newydd, meithrin rhai sy'n bodoli eisoes a chlywed am yr hyn y mae busnesau bach eraill yn ei wneud ar hyn o bryd.

- Dydd Gwener 9 Gorffennaf 2021, 12.00pm
  Archebwch yma: https://bit.ly/3A2YJhQ

Am fwy o wybodaeth am holl ddigwyddiadau FSB, ewch i:
http://bit.ly/3r6ZEbn

Cyfrif Twitter FSB Cymru:
https://twitter.com/FSB_Wales

## DYSGU: 'Responsible Business in Wales: purpose and values' 13 Gorffennaf 2021

Ymunwch â Business in the Community Cymru (BITC) ar 13 Gorffennaf 2021 rhwng 11:00am a 12:00pm ar gyfer gweminar rhyngweithiol ar ymgorffori pwrpas a gwerthoedd yn eich sefydliad. Mae'r weminar hon yn gyfle i glywed gan rai o aelodau BITC ar y camau ymarferol y maent wedi'u cymryd ar eu teithiau busnes cyfrifol, gan gynnwys y llwyddiannau a'r heriau y maent wedi'u profi. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://www.bitc.org.uk/event/responsible-business-in-wales-purpose-values/

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os oes gennych gwestiwn neu angen cyngor ebostiwch
busnes@gwynedd.llyw.cymru